Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Tywyn
# Caergeiliog
# Caergybi
# LL65 3NP

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol y Tywyn

Lleolir Ysgol y Tywyn ar gyrion arfordir gorllewinol Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Llanfihangel yn Nhywyn yn bennaf.

Mae 112 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 12 oed meithrin rhan amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 4 dosbarth oed cymysg.

Tros dreigl tair blynedd, mae 18% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n cyfateb i'r ganran genedlaethol. Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir ethnig.

Mae'r ysgol wedi adnabod tua 30% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol y Tywyn yn gymuned hapus a gofalgar, lle mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus, galluog. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, ac maent yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddatblygu medrau newydd. Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth yn sicrhau cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol.

Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn cydweithio'n hyblyg i gynllunio profiadau eang ac ysgogol i ennyn chwilfrydedd disgyblion. Mae defnydd o gysylltiadau lleol a chymunedol yn nodwedd arbennig sy'n sicrhau pwrpas i'r dysgu. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gyffrous ac yn tanio dychymyg bron pob un disgybl.

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn arbennig, yn gofalu am ei gilydd ac yn dangos agweddau parchus a hawddgar tuag at staff a phawb sy'n ymweld â'r ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson a phriodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

A3 Rhannu’r arfer dda yn yr addysgu ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau cysondeb.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn ystyried safbwynt eu cyfoedion yn ofalus. Maent yn dangos parch a chwrteisi wrth gymryd rhan mewn trafodaethau ac yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn defnyddio ystod eang o eirfa pan fyddant yn sgwrsio gydag oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth weithio'n annibynnol, er enghraifft wrth chwarae rôl hanes yr Iesu'n tawelu'r storm ar Lyn Galilea. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu'n briodol o'u mannau cychwyn. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn defnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith yn gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r iaith sydd yn fwyaf priodol ar gyfer y gynulleidfa, er enghraifft wrth wneud cyflwyniadau llafar ar ddyheadau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen Cymraeg. Maent yn mwynhau trafod llyfrau ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'u deunyddiau darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn darllen yn gadarn, gan drafod cynnwys y llyfrau yn fedrus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn Saesneg ac yn trafod nodweddion ystod o gyfryngau darllen yn aeddfed. Mae disgyblion mwy abl yn cymharu strwythurau ac arddulliau ysgrifennu gwahanol awduron yn hyderus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau yn gymwys wrth gyflwyno'u gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu portread am y corrach bach. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn defnyddio medrau llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac yn atalnodi eu gwaith yn berthnasol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwaith yn ddiddorol ar draws ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio technegau fel cwestiynau rhethregol yn fedrus mewn testunau perswâd. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn ysgrifennu araith rymus yn seiliedig ar freuddwyd Martin Luther King, ac yn amlinellu eu teimladau yn aeddfed gan gyfeirio at dystiolaeth uniongyrchol i gefnogi eu barn. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn dangos balchder yn ei waith ac yn cyflwyno'i waith yn daclus.

Er bod gan ddisgyblion y cyfnod sylfaen ymwybyddiaeth gadarn o'r iaith Gymraeg, nid yw medrau llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 mor gryf. Nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon hyderus wrth weithio'n annibynnol neu yn ystod amseroedd anffurfiol. Serch hynny, mae gan bron pob un o'r disgyblion

ddealltwriaeth dda o fanteision bod yn ddwyieithog, ac maent yn gweld y Gymraeg fel iaith fyw a defnyddiol.

Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Meithrin a Derbyn yn adnabod rhifau yn dda ac yn eu gosod yn y drefn gywir yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn fesur amlinelliad cyrff i'r centimetr agosach ac mae disgyblion mwy abl yn defnyddio centimetrau a metrau yn briodol wrth wneud yr un gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth gadarn gan ran fwyaf y disgyblion o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o rif, siâp, mesur a thrin data. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau mathemaetgol yn effeithiol er mwyn datrys problemau sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth gyfrifo cost taith addysgol i amgueddfa yn Lerpwl. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn tynnu lluniau digidol i gofnodi tasgau. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfuno eu medrau er mwyn creu cyflwyniad trawiadol, er enghraifft wrth greu parodi ar waith Edward Lear. Mae eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio taenlenni wrth fodelu yn datblygu'n briodol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob un disgybl drwy'r ysgol yn arbennig o dda. Maent yn rhyngweithio yn aeddfed â'i gilydd yn y dosbarthiadau, yn ystod amser egwyl ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion yn groesawgar ac yn gyfeillgar tu hwnt sydd yn golygu bod y nifer uchel o hwyr ddyfodiaid sy'n ymuno â'r ysgol yn ymgartrefu'n rhwydd ac yn teimlo'n rhan o gymuned yr ysgol yn gyflym iawn. Mae hyn yn gryfder nodedig.

Mae'r disgyblion yn trin ei gilydd, ymwelwyr a'r staff yn barchus. Maent yn siarad yn fyrlymus, yn hyderus a gyda balchder amlwg am eu hysgol. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi pe bai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn hyderus y byddai'r staff yn delio'n dda ag unrhyw anghydfod.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio yn dda ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Maent yn barod iawn i drafod eu gwaith, eu llwyddiannau a'r camau nesaf yn eu dysgu gydag oedolion. Maent yn cydweithio'n effeithiol mewn grwpiau ac mewn parau, gan gynnig cymorth i'w gilydd pan fo angen.

Mae'r disgyblion sy'n rhan o bwyllgorau'r ysgol yn datblygu eu cyfrifoldebau'n dda. Maent yn cyfrannu'n effeithiol i gynghorau'r ysgol ac yn ymfalchïo yn y cyfle i ddatblygu eu medrau arwain er mwyn helpu disgyblion eraill i ddeall pwysigrwydd eu gwaith. Er enghraifft, mae'r cyngor iach yn creu cynllun datblygu er mwyn cynllunio'u gwaith ar gyfer y flwyddyn. Maent yn monitro eu cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau yn effeithiol, ac yn trafod effaith eu gwaith yn dda. Maent wedi prynu

poteli ar gyfer eu hailddefnyddio i bob plentyn er mwyn torri lawr ar y defnydd o blastig ac er mwyn hybu disgyblion i yfed dŵr yn yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn hefyd yn weithredol trwy gefnogi amrywiaeth o elusennau ac ymgyrchoedd amgylcheddol, gan gynnwys elusennau cancr a digwyddiadau seiclo cenedlaethol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar y wê. Maent yn trafod pwysigrwydd peidio rhannu cyfrineiriau a pheryglon datgelu gwybodaeth bersonol. Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ffrwythau ac yfed dŵr. Mae'r cyngor ysgol wedi anfon llythyr at y rhieni i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu pecyn bwyd iach ac i gynnig syniadau iddynt. Maent hefyd wedi cwrdd â'r cwmni arlwyo er mwyn rhannu eu barnau ar safon bwyd y gegin ysgol a beth y dymunant ei gael fel cinio ysgol iachus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac yn gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol yng nghampfa'r awyrlu. Mae hyn yn hybu eu ffitrwydd corfforol yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd sydd ganddynt i chwarae rhan yn eu cymuned leol ac yn ehangach, er enghraifft drwy fynychu diwrnod teulu'r maes awyr, a thrwy eu llwyddiant mewn cystadleuaeth gorawl ryngwladol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o werthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu gwaith ar grefyddau gwahanol er mwyn gwerthfawrogi ac uniaethu yn effeithiol ag unigolion newydd i'r ysgol, o ble bynnag y byddant yn dod. Mae hyn yn helpu i feithrin ethos croesawgar yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyffrous sy'n ysgogi ac yn tanio dychymyg bron pob un disgybl. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi i'w dysgu ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio yn strategol ac yn trefnu ymweliadau ac ymwelwyr ysgogol yn fedrus. Mae hyn yn annog athrawon i ddatblygu'n unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol. Mae ymwelwyr yn cynnwys arlunwyr lleol, offeiriad o'r lluoedd arfog a pheilotiaid yr awyrlu. Enghraifft nodedig o hyn yw ymweliad un o'r arwyr a achubodd plant ifanc o ogof yng ngwlad Thai. Mae hyn yn sbarduno disgyblion i ysgrifennu'n feddylgar ac yn ennyn iddynt deimlo empathi tuag at eraill. Mae llawer o athrawon yn mabwysiadu dull hyblyg o gynllunio sy'n ystyried awgrymiadau disgyblion yn ogystal â digwyddiadau cyfredol lleol a rhyngwladol. Er enghraifft, yn dilyn storm ddiweddar yng Nghaergybi, astudiwyd yr effaith ddaearyddol a dynol ar yr harbwr hanesyddol a'r trigolion lleol.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion ac ethos y cyfnod sylfaen. Maent yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd y tu fewn i'r dosbarth ac yn yr awyr agored i addysgu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn effeithiol.

Maent yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Er enghraifft, mae disgyblion yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o drefn rhifau wrth “gerdded planc” y môr ladron.

Mae athrawon a chymorthyddion yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda. Mae perthynas waith arbennig rhyngddynt sy’n creu awyrgylch dysgu parchus ac ysgogol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bron pob un disgybl agwedd frwdfrydig tuag at eu dysgu.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio arddulliau addysgu effeithiol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion i gyd. Maent yn cyflwyno amcanion dysgu clir i’r disgyblion ac yn eu rhannu’n rheolaidd i sicrhau pwrpas i’r dysgu. Mae’r athrawon yn darparu gwersi cyffrous ac yn trefnu gweithgareddau dychmygus i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle gwerthfawr i weithio mewn parau, grwpiau ac yn annibynnol. Yn yr arferion gorau, mae cyflwyniadau gwersi’n fywiog ac yn sbarduno disgyblion i ddysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn actio fel un o drigolion Cwm Tryweryn er mwyn trafod a phwysleisio empathi gyda disgyblion cyfnod allweddol 2. Mewn llawer o ddosbarthiadau, lle mae’r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio’n annibynnol ac yn eu hannog i ddyfalbarhau ag unrhyw anawsterau yn eu gwaith. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynnig adborth pwrpasol i’r disgyblion er mwyn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain. Yn y lleiafrif o ddosbarthiadau lle mae’r addysgu llai effeithiol, nid yw’r gweithgareddau yn ddigon effeithiol i gefnogi a herio disgyblion o bob gallu fel eu bod yn gwneud y cynnydd gorau posibl o fewn gwersi.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd da o’u hasesiadau i helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a’u meysydd i’w gwella. Mae athrawon yn cynnig canmoliaeth adeiladol ar adegau priodol, ac o ganlyniad, yn cael amcan da o ddealltwriaeth y disgyblion. Ym mhob dosbarth, mae’r cymorthyddion yn helpu’r athrawon yn dda ac mae pob un o’r oedolion yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn asesu eu dealltwriaeth a herio eu syniadau. Mae’r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a chymhwysedd digidol i safon dda ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw cynllunio a chyflwyno medrau rhifedd wedi'u datblygu cystal.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn darparu ethos gofalgar a chynhwysol mewn amgylchedd teuluol. Mae lles a hapusrwydd y disgyblion yn flaenoriaeth. Mae’r staff yn llwyddiannus wrth feithrin agweddau gofalgar tuag at ei gilydd, ac at eu dysgu.

Mae’r ysgol yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Mae staff yn rhoi sylw da i ddarparu profiadau ystyrlon i ddisgyblion fedru ymgymryd â dyletswyddau pwysig fel aelodau o gymuned yr ysgol. Mae holl staff yr ysgol yn gwerthfawrogi barnau a syniadau y disgyblion ac yn eu cymryd o ddifri, sy’n golygu bod llais y disgybl yn gryfder drwy’r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn a’r “Ffrindiau Ffeind” yn ymateb yn synhwyrol i bryderon disgyblion eraill ac yn dangos gofal gwerthfawr am y disgyblion iau ar yr iard.

Mae gan yr ysgol gynlluniau clir i ddarparu disgyblion ag amrywiaeth o brofiadau dysgu ymarferol ac ysgogol. Maent yn llwyddiannus wrth ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'u diwylliant a'u threftadaeth, eu cymuned leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gydweithio ag arlunwyr lleol, ac o ganlyniad, maent yn cynhyrchu gwaith creadigol o safon arbennig.

Mae'r ysgol yn darparu ystod fuddiol ac eang o brofiadau i ddatblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn trefnu gweithdai celf a cherdd rheolaidd yn ogystal â threfnu ymweliadau â chanolfannau preswyl. Mae hyn oll yn cyfrannu'n werthfawr at adeiladu hunanhyder a medrau cymdeithasol y disgyblion ac yn paratoi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion meddylgar a chydwybodol.

Mae holl staff yr ysgol yn cyfathrebu'n dda er mwyn adnabod a thargedu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn rhannu cynlluniau a thargedau unigolion gyda'r rhieni ac yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol pan fo angen. Mae'r ysgol yn adolygu targedau disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnwys y disgyblion a'r holl randdeiliaid yn briodol yn y broses.

Mae athrawon yn asesu medrau disgyblion yn bwrpasol wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae systemau defnyddiol er mwyn monitro a thracio cyflawniad a lles disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r rhain yn cefnogi athrawon i adnabod a thargedu cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod fuddiol o ymyraethau i gefnogi disgyblion i wella eu medrau sylfaenol mewn iaith, mathemateg a lles. Mae'r ymyrraeth nodedig i ddisgyblion gydag anghenion ymddygiadol a lles yn effeithiol iawn ac yn sicrhau bod gan y disgyblion hyn fynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth o ran eu ffordd o fyw, a phwysigrwydd cadw'n heini. Mae hyn wedi arwain at ddisgyblion yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses, drwy lythyru rhieni yn eu hatgoffa am bolisi bwyta iach yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol yn trefnu nifer o weithgareddau pwrpasol i hybu cadw'n heini. Er enghraifft, mae athrawon wedi trefnu 'marathon cynradd' ynghyd â'r disgyblion er mwyn codi arian tuag at elusen leol, fel rhan o waith thema CA2.

Mae gan yr ysgol ystod o gysylltiadau gwerthfawr ag addoldai lleol. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion trwy wasanaethau wythnosol. Fel rhan o'r cwricwlwm, mae disgyblion yn dysgu am Gristnogaeth a chrefyddau eraill, ac am ddiwylliant gwledydd eraill. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod y disgyblion yn gwbl argyhoeddedig eu bod hi'n bwysig iddynt ddysgu am gefndiroedd pobl eraill. Mae'r ysgol yn parchu a chroesawu disgyblion o gefndiroedd amrywiol ac yn sicrhau bod pawb yn teimlo'n gartrefol. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol disgyblion yn effeithiol i fod yn oddefgar ac i ddeall a pharchu gwahaniaethau.

Fel rhan o'i ethos gofalgar, mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn rheolaidd ac yn manteisio ar gyfleoedd dyddiol i godi eu hymwybyddiaeth o werthoedd trwy wasanaethau dyddiol. Mae'r pwyslais ar foesau a datblygiad

ysbrydol yn meithrin parch at eu hunain ac eraill, sy’n nodweddiadol yn ymddygiad ardderchog y disgyblion.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gref a chadarn ac yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol, gydag amcanion uchelgeisiol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae wedi rhannu’r weledigaeth i gryfhau Cymreictod ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol i sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol yn gwbl ddwyieithog. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr wedi cyfleu'r weledigaeth honno i’r staff, rhieni a’r disgyblion. Mae hyn wedi arwain at sefydlu cymuned ddysgu gynhwysol sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu’r weledigaeth.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. Maent wedi sefydlu gweithgareddau hunanwerthuso cynhwysfawr sy’n nodi cryfderau’r ysgol a’r rhan fwyaf o feysydd i’w gwella yn effeithiol. Mae eu harfer o fonitro a chraffu ar berfformiad ar draws yr ysgol yn eu cynorthwyo i ddod i farn glir a chywir ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae’r ysgol yn casglu barn staff, rhieni a disgyblion yn rheolaidd i sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid gyfle amlwg i wneud sylwadau a chynnig awgrymiadau o ran gwella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae cysylltiad da rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau gwerthuso a chynllun datblygu’r ysgol, sy’n sicrhau ei fod yn ddefnyddiol ac effeithiol. Mae hwn ar gael i’w rannu ar fewnrwyd yr ysgol fel bod pob athro yn medru rhoi mewnbwn sydd wedyn yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd athrawon. O ganlyniad, mae gan yr holl staff ddealltwriaeth gadarn o’r camau y mae angen iddynt eu cymryd i wella’r ddarpariaeth, gan gynnwys addysgu.

Mae cynlluniau’r ysgol ar gyfer datblygu staff yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau a gweithdrefnau rheoli perfformiad cyfredol. Maent yn cyfoethogi datblygiad proffesiynol yr holl staff yn llwyddiannus iawn. Mae gan yr ysgol adnoddau da ac mae arweinwyr yn sicrhau defnydd pwrpasol o gyllideb i wella darpariaeth a safonau. Mae’r buddsoddiad sylweddol mewn offer TGCh yn sicrhau bod rhan fwyaf o’r disgyblion yn defnyddio’u medrau yn gyson a naturiol. Mae hyn yn golygu bod safonau da yn y maes hwn.

Mae gwariant yn cysylltu’n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella’r ysgol. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus iawn ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio’n llawn i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Oherwydd natur ansefydlog niferoedd y disgyblion, mae’r ysgol yn cadw cyllid wrth gefn i sicrhau bod cysondeb yn lefel staffio'r ysgol. Mae defnydd bwriadus o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn sicrhau bod yr ysgol yn medru cynnig cefnogaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn cyflawni cystal â’u cyfoedion.

Mae parodrwydd y pennaeth a'r holl staff i wynebu newidiadau a datblygiadau egwyddorion pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn flaengar, gyda'r agwedd greadigol yn nodwedd gref. Mae gwaith celf llawer o ddisgyblion yn dda iawn, ac mae'r parch a roddir i'w arddangos yn creu awyrgylch ddeniadol a lliwgar. Mae'r athrawon wedi addasu'r ddarpariaeth ar gyfer cynnal profiadau ymarferol, ysgogol a chynnig heriau i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth. Mae hyn yn ennyn diddordeb bron pob un disgybl. Mae strategaethau addysgu cytûn wedi eu sefydlu gyda phwyslais amlwg ar sicrhau bod disgyblion yn rhan weithredol o'u dysgu. Mae ymateb yr ysgol i sefydlu'r Fframwaith Digidol a hybu'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol yn gadarn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2019